

### **335 Cyfansoddi Cerddoriaeth Bl.10 ac 11**

**Cyfansoddi darn o gerddoriaeth (mewn unrhyw gyfrwng) gyda chyswllt Cymreig, heb fod yn hwy na 5 munud**

#### **Beirniad – Bethan Smallwood**

Un darn o gerddoriaeth yn unig a ddaeth i law a gresyn am hyn. Ydio'n adlewyrchiad o'r niferoedd sy'n astudio Cerdd yn ein hysgolion y dyddiau hyn?

Cyfansoddiad ar gyfer telyn deires a fiola yw, yn dwyn y teitl 'Clychau Sant Carannog' dan y ffugenw Crannog. Mor braf gweld y delyn deires yn cael ei lle priodol mewn cyfansoddiad yn 2020 a llongyfarchiadau i'r ymgeisydd am lwyddo i gyfansoddi darn deniadol a gwreiddiol ar ei chyfer. Defnyddia ddwy erwydd i ysgrifennu iddi yn hynod gelfydd a chredaf fod yr ymgeisydd yn adnabod y cyfrwng yn dda iawn.

Alaw fach gytbwys, hynod gofiadwy a swynol sydd yma, yn cael ei hamrywio bob tro yr ymddengys, yn null Alaw ac Amrywiadau. Yna ceir byrdwn bach o glychau'r eglwys yn canu fel dolen gydiol rhwng pob un, sy'n rhoi amrywiaeth hyfryd i'r gwrandawr.

Credaf fod y fiola a'r delyn yn dyblu'r alaw yn rhy aml, yn hytrach na chydblethu hefo hi i greu gwrthbwynt diddorol, fel sydd ym mar 23-38, i gyfoethogi'r gwedd ac ychwanegu diddordeb. Gellid hefyd fod wedi arbrofi drwy basio'r alaw ar y delyn o un llaw i'r llall.

Mae'r ymgeisydd yn llwyr deilyngu'r wobr gyntaf, gyda chanmoliaeth uchel ac anogaeth i ddal ati i gyfansoddi ar gyfer y deires gan fentro mwy o ran yr harmoni a'r arddull draddodiadol ddiatonig yn y dyfodol. Byddai darnau o'r fath yn cael eu croesawu'n frwdfrydig ac yn ffordd o hyrwyddo yr hen delyn Gymreig.